24-01 (06)

**Eitem:** 08

**Teitl:** Adroddiad risg corfforaethol

| | |
|---|---|
| **Gweithred / Action required** | I nodi |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd:<br><br>- ystyried yr adroddiad cryno sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd yn erbyn pob risg<br>- cymryd sicrwydd o graffu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r gofrestr risg gorfforaethol ym mis Tachwedd – mae diweddariadau pellach wedi'u gwneud ers y cyfarfod hwn.<br>- ystyried a chytuno ar y risg 'seiberddiogelwch' ychwanegol a newid ffocws risg 'gwirfoddolwyr'; a<br>- nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu ymhellach ein dull sefydliadol o reoli risg. |
| **Risg / Risk** | Gallai methu â dal a rheoli ein risgiau strategol arwain at ganlyniadau tymor byr a thymor hwy i Llais. |
| **Cyllid / Finance** | Amh |
| **Amcan cynllun blynyddol / Annual plan objective Amcan cynllyn strategol / Strategic plan objective** | Blaenoriaeth 07: Bod yn sefydliad uchelgeisiol sy'n cael ei redeg yn dda,<br><br>ac y gellir ymddiried ynddo. |
| **Cydraddoldeb / Equality** | Amh |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒ |

| | |
|---|---|
| | **Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Prif Weithredwr |
| **Trafodaethau neu penderfyniadau blaenorol / Previous discussions or decisions** | Cytunodd y Bwrdd ar y gofrestr risg gorfforaethol yng nghyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ym mis Hydref 2023. |
| **Awdur Cyflwyno / Author/Presenting** | Ceri Sullivan |
| **Dyddiad / Date** | 15.01.2024 |

**Cefndir**

Cyflwynwyd y gofrestr risg gorfforaethol ddrafft i'r Bwrdd ar 25 Hydref 2023 i'w hystyried a'i chymeradwyo.

Cytunodd y Bwrdd ar y risgiau corfforaethol ar y sail y byddai risg ychwanegol yn cael ei chynnwys ar seiberddiogelwch – mae hyn wedi'i weithredu.

Ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref 2023, mae'r gofrestr risg gorfforaethol wedi'i thrafod a'i diweddaru yng nghyfarfodydd misol Tîm Arwain a chraffwyd arni yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2023. Mae'r ddau grŵp wedi rhoi sicrwydd bod y gofrestr risg yn gywir ac yn gyfredol ac yn adlewyrchu ein risgiau strategol.

Cafwyd trafodaeth hefyd yng nghyfarfod y pwyllgor ynghylch cyhoeddi'r gofrestr risg gorfforaethol fel rhan o bapurau'r Bwrdd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r gofrestr risg yn cael ei chyhoeddi yn yr ysbryd o fod yn agored ac yn dryloyw. Fodd bynnag, os caiff gwybodaeth ychwanegol ei hychwanegu at y gofrestr risg a ystyrir yn sensitif neu'n gyfrinachol ei natur, byddai angen ei golygu cyn cyhoeddiadau dyfodol.

Mewn ymateb i ddatblygiadau, mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru ymhellach ers iddi gael ei thrafod diwethaf yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis

Tachwedd. Y newid mwyaf arwyddocaol oedd newid ffocws ar gyfer risg y gwirfoddolwr (rhagor o wybodaeth isod).

Bu rhywfaint o ostyngiad yn y sgorau gweddilliol (dangosir hyn yn y golofn 'Newid gradd ers y trafodwyd diwethaf' ar y gofrestr) ond yn gyffredinol, mae'r sgoriau risg yn aros yr un fath - mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried aeddfedrwydd y sefydliad a gweddill y gwaith sydd ar y gweill i gyflawni'r polisïau a'r strategaethau dyledus sydd eu hangen ar gyfer corff newydd.

Bu rhai trafodaethau gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Tîm Arwain ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn fframio ein risgiau.

Yn draddodiadol, mae ffocws rheoli risg sefydliadol yn canolbwyntio ar liniaru risg, mynd i'r afael â bygythiadau posibl ac osgoi canlyniadau negyddol. Er ei fod yn hanfodol, gall y dull hwn sy'n canolbwyntio ar risg dueddu i feithrin meddylfryd ochelgar, gan ganolbwyntio'n bennaf ar osgoi niwed yn hytrach nag ymdrechu'n weithredol i sicrhau cynnydd a thwf.

Rydym yn archwilio defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfder. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar gryfderau, galluoedd, a rhinweddau cadarnhaol ein sefydliad yn hytrach na mynd i'r afael â gwendidau neu ddiffygion yn unig.

Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yn Tîm Arwain a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg dros y misoedd nesaf. Bydd unrhyw argymhellion i newid ein hymagwedd yn cael eu dwyn yn ôl i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

## Manylion / Detail

Rydym wedi cynnwys crynodeb o ddatblygiadau gyda phob risg isod:

| Risg | Newidiadau ers Hydref '24 |
|---|---|
| **RC1: Pobl a sgiliau** - methu â chaffael neu gadw arbenigedd a chymysgedd sgiliau mewn meysydd allweddol, gan arwain at analluu i gyflawni rhai swyddogaethau. Mae angen amser ar weithlu CIC blaenorol a dechreuwyr newydd i addasu i ffyrdd | Mae risg yn dal yn fyw. Mae rhai rheolaethau risg pellach wedi'u rhoi ar waith. |

| | |
|---|---|
| newydd o weithio a allai effeithio ar effeithlonrwydd a darpariaeth. | |
| **RC2: Diwylliant sefydliadol** - gall methu â sefydlu diwylliant cyffredin yn gynnar gael effeithiau mwy hirdymor. | Mae risg yn dal yn fyw. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi rhagor o reolaethau risg ar waith. |
| **RC3: Gwirfoddolwyr** – mae rhai o gyn-aelodau'r CIC yn gweld y trawsnewid i ddull gwirfoddoli Llais a ffyrdd newydd o weithio yn heriol. Gallai hyn arwain at fylchau wrth ddarparu gwasanaethau. | Mae ffocws y risg hon wedi newid o heriau gyda phrosesau recriwtio gwirfoddolwyr i heriau o ran defnyddio a chefnogi gwirfoddolwyr gyda ffyrdd newydd o weithio.<br>Mae'r heriau a wynebwyd gennym yn flaenorol gyda'r broses recriwtio ar gyfer gwirfoddolwyr wedi'u datrys. |
| **RC4: Galw Annisgwyl/Ansicrwydd Galw** - galw heb ei gynllunio gan y cyhoedd neu randdeiliaid yn fwy na'r capasiti, gan arwain at bwysau ar adnoddau neu fethiant i ddarparu gwasanaeth. Mae ychwanegu gofal cymdeithasol yn dod â llawer o bethau anhysbys yn ei sgîl, a gallai'r galw am wasanaethau effeithio ar gyflawni swyddogaethau Llais | Mae risg yn dal yn fyw. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi rhagor o reolaethau risg ar waith. |
| **CR5: Hygyrchedd** - gallai unrhyw newidiadau i leoliad Llais effeithio ar hygyrchedd i'n pobl a'r cyhoedd ac effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. | Mae risg yn dal yn fyw. Gwnaed rhai diweddariadau i reolaethau risg a chamau gweithredu pellach sydd eu hangen. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi rhagor o reolaethau risg ar waith |
| **RC6: Gweithredu TG** - oedi wrth roi systemau TG ar waith yn atal staff rhag cyflawni eu rolau'n effeithiol ac yn effeithlon ac yn effeithio ar forâl staff. | Mae risg yn dal yn fyw. Gwnaed rhai diweddariadau i reolaethau risg a chamau gweithredu pellach sydd eu hangen. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi rhagor o reolaethau risg ar waith. |
| **RC7: Cyllid** - gwariant heb ei gynllunio oherwydd ansicrwydd ynghylch galw, systemau cymeradwyo gwan neu dwyll, gan arwain at gostau sy'n fwy na'r gyllideb. | Mae risg yn dal yn fyw. Gwnaed rhai diweddariadau i reolaethau risg a chamau gweithredu pellach sydd eu hangen. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi rhagor o reolaethau risg ar waith. |

| | |
|---|---|
| **RC8: Methiant systemau** - Colled seilwaith a systemau digidol, gan gynnwys cysylltedd rhwydwaith ffisegol, cymwysiadau allweddol fel Office 365, sy'n cynnwys e-byst SharePoint a Rheoli Perthynas Cwsmeriaid (RPC)/Datix.<br>Byddai hyn yn arwain at weithrediadau Llais yn methu â gweithredu, yn atal neu'n gohirio gwasanaethau y gellir eu darparu. | Mae risg yn dal yn fyw. Gwnaed rhai diweddariadau i reolaethau risg a chamau gweithredu pellach sydd eu hangen. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi rhagor o reolaethau risg ar waith. |
| **RC9: Seiberddiogelwch –** gall systemau digidol sydd ddim ar gael oherwydd hacio a mathau eraill o ymosodiad seiber, oherwydd gwendidau neu fregusrwydd mewn diogelwch, arwain at weithrediadau allweddol i beidio bod ar gael, y posibilrwydd o golli data, oedi neu amser adfer estynedig, colli hygrededd ymhlith y cyhoedd a rhanddeiliaid, Llais yn methu â gweithredu a chydymffurfio â fframwaith llywodraethu newydd. | Ychwanegwyd risg newydd yn unol â chais y Bwrdd, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i roi rhagor o reolaethau risg ar waith. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno rhaglen gyfredol o hyfforddiant diogelwch TG ar gyfer holl staff Llais. |
| **RC10: Ymagwedd genedlaethol** - methu ag ymgorffori dull gweithredu cenedlaethol, gan arwain at ddiffyg dealltwriaeth, systemau sydd wedi'u cynllunio'n wael, ac aneffeithlonrwydd mewn systemau. | Mae risg yn dal yn fyw. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi rhagor o reolaethau risg ar waith. |
| **RC11: Cwmpas a chylch gwaith** - Gall gwybodaeth fewnol, dealltwriaeth a diffyg eglurder o gylch gorchwyl Llais arwain at fylchau yn y gwasanaeth a ddarperir neu i Llais weithredu y tu allan i'w gylch gorchwyl. Gall diffyg gwybodaeth allanol arwain at ofyn i Llais fynd â materion y tu allan i'n cylch gorchwyl ymlaen | Mae risg yn dal yn fyw. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi rhagor o reolaethau risg ar waith. |

| | |
|---|---|
| **RC12: Disgwyliadau'r cyhoedd a rhanddeiliaid** - methu bodloni disgwyliadau'r cyhoedd o ran ansawdd gwasanaeth, gan arwain at effaith ar enw da - beirniadaeth, bylchau yn y gwasanaeth a diffyg hyder a'r angen am newid pellach. | Mae risg yn dal yn fyw. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi rhagor o reolaethau risg ar waith. |
| **RC13: Cysylltiadau partneriaeth** - anhawster gweithredu newidiadau i berthnasoedd sy'n bodoli eisoes gyda rhanddeiliaid allweddol, gallai anhawster i greu perthnasoedd newydd gyda rhanddeiliaid allweddol arwain at gamddealltwriaeth o ddiben Llais ac atal Llais rhag cyflawni ei swyddogaethau'n llwyddiannus, effeithio ar enw da Llais a'i allu i ennill hyder fel sefydliad dylanwadol y gellir ymddiried ynddo. | Mae risg yn dal yn fyw. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi rhagor o reolaethau risg ar waith. |
| **RC14: Rhwymedigaethau statudol** - Ansicrwydd cwmpas a graddau rhwymedigaethau statudol (hysbys ac anhysbys) yn arwain at fethiant i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol ehangach a/neu ddirwyon neu golledion. | Mae risg yn dal yn fyw. Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu rheolaethau risg pellach – gan gynnwys adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau Llais (gweler papur Bwrdd 24-01 (13) Adolygu polisïau a gweithdrefnau). |
| **RC15: Trefniadau partneriaeth a darparwr gwasanaeth allweddol** - Gallai methu â chytuno ar lefelau darpariaeth gwasanaeth (gan gynnwys safonau gwasanaeth) gyda Felindre, PCGC a IGDC yn gynnar arwain at fylchau neu wasanaethau amhriodol yn cael eu darparu i Llais a chael effaith tymor hwy ar y berthynas â'r darparwyr gwasanaethau allweddol hyn. | Mae risg yn dal yn fyw. Cynnydd a wnaed o ran cytuno ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a datrysiad rhai cwestiynau heb eu hateb ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG a Chytundeb Lefel Gwasanaeth Gofal Iechyd Digidol Cymru (mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru). |

**Gweithredu:**

Gofynnir i'r Bwrdd:

- ystyried yr adroddiad cryno sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd yn erbyn pob risg
- cymryd sicrwydd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a fu'n craffu ar y gofrestr risg gorfforaethol ym mis Tachwedd 2023 – mae diweddariadau pellach wedi'u gwneud ers y cyfarfod hwn.
- ystyried a chytuno ar y risg 'seiberddiogelwch' ychwanegol a newid ffocws risg 'gwirfoddolwyr'.